Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

# Strategaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant drwy leihau troseddu a chreu cymunedau diogelach

2024–2027

# Rhagair – Keith Fraser



Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hail gynllun strategol yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae gennym rôl hanfodol yn sicrhau bod buddsoddiad canolog y Llywodraeth, sy'n ychydig dros £100 miliwn y flwyddyn ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol.

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein dull o barhau i weithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth a chyflenwi gwasanaethau sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant, sy'n lleihau troseddau, yn cefnogi dioddefwyr ac yn gwneud cymunedau'n fwy diogel.

Lansiwyd cynllun cyntaf fy naliadaeth yn 2021 pan oeddem yng nghanol y pandemig byd-eang, ac agorais y cynllun hwnnw gyda'r datganiad canlynol:

> "Rydym yn byw mewn cyfnod heriol. Ond, gyda phob her mae yna gyfle."

Mae hyn yr un mor heddiw ag yr oedd bryd hynny. Bydd heriau bob amser, ond rwy'n credu'n gryf po fwyaf yw'r heriau, y mwyaf yw'r cyfleoedd.

Mae perfformiad yn y sector cyfiawnder ieuenctid yn gryf. Mae nifer y plant sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid wedi lleihau'n aruthrol yn y degawd diwethaf, yn ogystal â'r nifer o blant sydd yn y ddalfa. Mae asesiadau annibynnol a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth Prawf yn dangos bod gwasanaethau a phartneriaethau cyfiawnder ieuenctid lleol yn cyflawni gwasanaeth da ar y cyfan i blant a'u cymunedau. Mae yna sylfaen gadarn i ni adeiladu arni ac wynebu'r dyfodol.

Mae'r heriau a wynebwn heddiw yn sylweddol ac mae'n rhaid i mi gydnabod ei bod yn gyfnod ansicr i ni gyflwyno ein gweledigaeth strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r byd yn parhau i addasu i'r newidiadau cymdeithasol a gyflwynwyd gan y pandemig, gan gynnwys y defnydd cynyddol o dechnoleg, dwysâd mewn anghydraddoldebau a phwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus lleol i gyflawni anghenion cymunedau lleol. Mae ystod o ffactorau byd-eang wedi cyfrannu at yr ansicrwydd economaidd, gyda phobl a gwasanaethau cyhoeddus yn profi'r straen a achosir gan gostau byw uwch. Rydym hefyd yn gweithredu mewn amgylchedd o ansicrwydd gwleidyddol, gyda disgwyl i etholiad cyffredinol gael ei gynnal yn y naw mis nesaf ac adolygiad arfaethedig o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, lle bydd Swyddfa'r Cabinet yn edrych i weld a ydym yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i drethdalwyr.

Nid yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn unigryw wrth geisio llywio byd ansicr, a'n rôl ni yw parhau i addasu i'r amgylchiadau yr ydym yn gweithredu ynddynt a'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Agwedd allweddol o'n strategaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf fydd sicrhau bod y buddsoddiad hwn gan y llywodraeth ganolog yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan

wasanaethau lleol. Mae ein hasesiad wedi dangos bod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol yn perfformio’n dda ar y cyfan. Maent yn elwa o staff arbenigol ac ymrwymedig o sawl asiantaeth, gan gynnwys iechyd, prawf, addysg, yr heddlu a thimau cyfiawnder ieuenctid sy’n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni anghenion plant a’u cymunedau lleol. Fodd bynnag, mae lle i wella bob amser. Er enghraifft, mae angen inni atgyfnerthu ein cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau, dyblu ein hymdrechion i leihau anghyfartaledd hiliol a datblygu ein gwasanaethau i fodloni anghenion plant nad ydynt yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, gan gynnwys eu hanawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ein prif flaenoriaeth fydd parhau i werthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny a llywio gwelliannau drwy hyrwyddo arfer da a darparu cymorth wedi’i dargedu.

Yn ein cynllun strategol diwethaf dair blynedd yn ôl, fe wnaethom bennu ein hymrwymiad i’r dull gweithredu Plentyn yn Gyntaf, sydd wedi’i wreiddio mewn gwaith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol a dadansoddiad cyfoes o’r dystiolaeth. Mae’n darparu’r sail i’r strategaeth hon a’r ffordd y byddwn yn monitro ac yn hyrwyddo arfer ar draws y system cyfiawnder ieuenctid gyfan.

Er bod y dystiolaeth hon yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnal cyfeiriad ein strategaeth, mae’n rhaid i ni sicrhau bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn sefydliad effeithlon, effeithiol ac ymatebol sy’n deall rhyng-ddibyniaethau yn y system cyfiawnder ieuenctid a bod gwasanaethau’n cael eu cyflenwi o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y meysydd lle gallwn greu’r effaith fwyaf, drwy gefnogi gwelliannau i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid rheng flaen. Yn y pen draw, rydym yn cynnig gwerth i’r cyhoedd drwy gefnogi’r broses o gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant, llai o droseddau a chymunedau diogelach.



Keith Fraser
Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

# Y cyd-destun strategol

Mae'r ddegawd diwethaf wedi gweld tueddiadau tymor hir cadarnhaol iawn ar draws y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr:

- Mae nifer y troseddau profedig a gyflawnwyd gan blant wedi gostwng tua 65% o 98,937 yn 2012/13 i tua 34,300 yn 2022/23;[1 2]
- Bu gostyngiadau sylweddol yn nifer y plant sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol i ddechrau, gyda gostyngiad o tua 77% dros y degawd rhwng y blynyddoedd yn dod i ben ym Mawrth 2012 a Mawrth 2023;[1 2]
- Roedd tua 11,900 o achlysuron pan gafodd plant eu dedfrydu mewn llys yn y flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2023 sydd 73% yn is na'r flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2012;[1 2]
- Mae'r nifer o blant sy'n cael eu dedfrydu i garchar hefyd wedi gostwng ac yn y flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2023, roedd y boblogaeth fisol gyfartalog yn sefydliadau diogel ieuenctid ar ei lefel isaf erioed, gyda thua 440 o blant.[2]

Credwn mai ffocws uwch gan ymarferwyr a llunwyr polisi, yn y system cyfiawnder ieuenctid ac mewn meysydd cysylltiedig, i atal a dargyfeirio plant oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid sy'n rhannol gyfrifol am y tueddiadau hynny. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na ellir cymryd yr enillion hyn yn ganiataol ac mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer 2022/23 yn pwysleisio hyn, gyda chynnydd bychan mewn rhai mesurau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gallai newidiadau yn ymddygiad plant beryglu'r cyflawniadau hyn, gan gynnwys: eu defnydd (a'u camddefnydd), o dechnolegau newydd; y ffordd y mae oedolion yn eu denu i weithgarwch troseddol; amgylchiadau economaidd cenedlaethol a lleol; a'r newidiadau posibl i bolisi ac arfer, yn benodol gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid rôl allweddol yn cefnogi'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i liniaru ac, os yn bosibl, atal y ffactorau hyn rhag troi'n ganlyniadau negyddol i blant a chymunedau.

Mae heriau dwys a sefydledig yn parhau i fodoli yn y system cyfiawnder ieuenctid. Er ein bod wedi'n calonogi gan y ffaith bod y set ddiweddaraf o ystadegau cyhoeddedig y drydedd flwddyn lle'r ydym wedi gweld gwelliannau o ran anghyfartaledd, ni ddylai ein ffocws na'n hymdrech arafu oherwydd mae anghyfartaledd hiliol sylweddol yn parhau ar draws pob cam o'r system. Mae hyn yn effeithio'n benodol ar fechgyn Du, er nodwyd bod plant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill yn profi canlyniadau gwaeth hefyd.[3]

1 **Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2012/13 – Cymru a Lloegr (publishing.service.gov.uk)**

2 **Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2022 i 2023 (accessible version) – GOV.UK (www.gov.uk)**

3 **Ystadegau blynyddol: system cyfiawnder ieuenctid sy'n esgeuluso plant Du – GOV.UK (www.gov.uk)**

Mae gan y mwyafrif helaeth o’r plant a ddaeth drwy’r system cyfiawnder ieuenctid yn y tair blynedd ddiwethaf gefndiroedd ac anghenion cymhleth.[4] Mae hyn yn arbennig o wir i’r rhai sydd wedi derbyn dedfryd o garchar – ac er bod y gostyngiad yn nifer y plant sy’n cael eu cadw yn y ddalfa yn rhywbeth i’w ddathlu – mae’r patrymau o drais, hunan-niweidio a thrawma a welir ymhlith y plant yn y lleoliadau hyn yn annerbyniol.

Mae’n rhaid cydnabod hefyd nad yw’r system cyfiawnder ieuenctid yn bodoli mewn gwactod a bod amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn cael dylanwad aruthrol ar fywydau a chyfleoedd plant ledled y wlad. Gwyddom fod llawer o’r plant sy’n dod i gysylltiad â’r system gyfiawnder yn dod o rai o’n cymunedau mwyaf difreintiedig lle mae’r profiad o’r argyfwng costau bywydyn creu’r amodau lle mae plant yn llawer mwy tebygol o ymgysylltu mewn trais.[5]

Mae effaith y pandemig COVID-19 hefyd yn parhau i amharu’n sylweddol ar fywydau plant, gan bod eu gallu i gael mynediad at addysg a gwasanaethau eraill wedi cael ei amharu am gyfnod hir. Mae’r data diweddaraf[6] yn dangos bod 22.3% o blant yn gyson absennol yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23, sydd dwbl y ffigur cyfatebol ar gyfer 2018/19, a bydd yn cael effaith sylweddol ar eu datblygiad cymdeithasol a’u hymrwymiad i ddysgu.

Yn olaf, i’r gwasanaethau cyhoeddus hynny sy’n gyfrifol am gyflawni cyfiawnder ieuenctid, mae pwysau cyllidebol arwyddocaol yn parhau a bydd penderfyniadau anodd i’w gwneud ynghylch pa wasanaethau y gellir neu na ellir eu darparu, a sut. Mae newidiadau yn y farchnad swyddi yn y sector cyfiawnder ieuenctid yn dwysáu hyn ac mae mwy o symudedd gweithwyr a chystadleuaeth am weithwyr medrus, sy’n ei gwneud yn her i recriwtio a chadw’r staff gorau.

Yn erbyn y cefndir hwn o newid, mae heriau sylweddol yn bodoli ar draws y system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag mae tueddiadau yn y tymor hwy yn gadarnhaol, a chredwn mai’r canllaw mwyaf dibynadwy mewn cyfnod o ansicrwydd yw dilyn dull sy’n seiliedig ar dystiolaeth.

4 **Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a’r Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021) Canfu Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System 2019/20 – Bu i’r adroddiad hwn ganfod, o’r holl blant a dderbyniodd ddedfryd yn 2019/20, aseswyd bod gan 90% o’r plant a dderbyniodd ddedfryd anghenion diogelwch a llesiant; aseswyd bod gan 72% bryderon iechyd meddwl; aseswyd bod gan 71% bryderon lleferydd, iaith a chyfathrebu; ac aseswyd bod 57% yn, neu wedi bod, yn blentyn mewn angen.**

5 **Lesley McAra a Susan McVie (2016), ‘Understanding youth violence: The mediating effects of gender, poverty and vulnerability’ 45 Journal of Criminal Justice tudalennau 71–77**

6 **Pupil attendance in schools, Week 29 2023 – Explore education statistics – GOV.UK (explore-education-statistics.service.gov.uk)**

# Cyfiawnder ieuenctid yng nghymru

Er bod cyfiawnder yn parhau i fod yn fater a gedwir yn ôl, gyda Llywodraeth y DU yn penderfynu arno, mae gan Senedd Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros feysydd polisi sy'n siapio bywydau plant yn uniongyrchol, gan gynnwys addysg ac iechyd; gyda Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i atal troseddu gan blant yng Nghymru.

Mae gennym bartneriaeth strategol sefydledig gyda Llywodraeth Cymru. Mae ein Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau i Gymru yn ein galluogi i ddylanwadu ar gyfeiriad strategol a gweithredol a sicrhau bod yr agwedd bartneriaeth yng Nghymru yn cael ei hadlewyrchu ym musnes y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.



# Ein Gweledigaeth

Er gwaethaf yr heriau cymhleth sy’n wynebu’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn 2024, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i’r weledigaeth a gyflwynwyd gennym yn 2021:

> System cyfiawnder ieuenctid sy’n trin plant fel plant i ddechrau, sy’n eu trin yn deg ac sy’n eu helpu i adeiladu ar eu cryfderau er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad adeiladol i gymdeithas. Bydd hyn yn atal troseddu ac yn creu cymunedau diogelach gyda llai o ddioddefwyr.

Wrth i ni geisio cyflawni’r weledigaeth hon, mae’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ymrwymedig i ddilyn dull gweithredu ar sail tystiolaeth, a gallwn dynnu ar ddegawdau o dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol o beth sy’n gweithio wrth greu canlyniadau cadarnhaol i blant.

Rydym wedi crynhoi’r dystiolaeth hon fel y dull gweithredu ‘Plentyn yn Gyntaf’.[7] Mae’n darparu’r egwyddorion ar gyfer popeth a wnawn yn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys ein trosolwg o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol, y data a’r dadansoddiadau a gyhoeddir gennym, a’r cyngor a gynigiwn i Weinidogion a phartneriaid ym mhob rhan o’r system gyfiawnder.

Mae gan y dull ‘Plentyn yn Gyntaf’ bedair egwyddor, sef:



### **F**el plant

Blaenoriaethu buddiannau gorau plant a chydnabod eu hanghenion, eu galluoedd, eu hawliau a’u potensial penodol. Mae’r holl waith yn canolbwyntio ar y plentyn, yn seiliedig ar ddatblygiad, yn cydnabod rhwystrau strwythurol ac yn bodloni cyfrifoldebau tuag at blant.

### **D**atblygu hunaniaeth gymdeithasol

Hyrwyddo cryfderau a galluoedd unigol plant i ddatblygu eu hunaniaeth gymdeithasol ar gyfer ymataliad cynaliadwy, sy’n arwain at gymunedau diogelach a llai o ddioddefwyr. Mae’r holl waith yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, yn seiliedig ar berthnasoedd cefnogol sy’n grymuso plant i gyflawni eu potensial a gwneud cyfraniadau cadarnhaol i gymdeithas.

### **C**ydweithredu â phlant

Annog cyfranogiad gweithredol, ymgysylltiad a chynhwysiant cymdeithasol ehangach plant. Mae’r holl waith yn gydweithrediad ystyrlon gyda phlant a’u gofalwyr.

### **D**argyfeirio oddi wrth stigma

Hyrwyddo plentyndod wedi’i dynnu allan o’r system gyfiawnder, gan ddefnyddio dulliau gan ddefnyddio ataliaeth ragataliol, dargyfeirio a chyn lleied â phosibl o ymyrraeth. Mae’r holl waith yn lleihau’r stigma troseddegol o gysylltiad â’r system.

7 **Am fanylion pellach, gweler: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2022) A guide to Child First – https://yjresourcehub.uk/images/YJB/Child_First_Overview_and_Guide_April_2022_YJB.pdf**

# Ein cenhadaeth

Wrth weithio i gyflawni'r weledigaeth hon, mae ein datganiad cenhadaeth yn darparu manylion pellach am ein diben craidd a'r dull gweithredu y bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ei fabwysiadu:

> Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yw'r unig gorff statudol sy'n goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid gyfan. Rydym yn darparu cyngor ac arweinyddiaeth annibynnol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ysgogi gwelliannau sy'n cynyddu canlyniadau cadarnhaol plant ac sy'n atal troseddu.

Roedd y ddeddfwriaeth[8] a sefydlodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn 1998 hefyd yn diffinio cyfres o swyddogaethau ar gyfer y Bwrdd, sy'n cynnwys: monitro gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid a darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid; nodi a hyrwyddo arfer da; a darparu cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ystod o faterion penodedig.

Mae'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r dyletswyddau statudol hyn wedi esblygu ers iddynt gael eu sefydlu'n wreiddiol. Yn ystod oes y strategaeth hon, byddwn yn ceisio cyflawni'r diben craidd a nodir yn ein cenhadaeth drwy:

**Cefnogi gwelliannau drwy'r system cyfiawnder ieuenctid ac wrth ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol.**

Byddwn yn defnyddio ein goruchwyliaeth o'r system cyfiawnder ieuenctid i:

- gyfrannu i ddarparu adnoddau effeithiol i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid
- pennu safonau clir ar gyfer cyfiawnder[9]
- cefnogi perfformiad gwell gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid
- defnyddio ein data a'n tystiolaeth i nodi cyfleoedd i arloesi a gwella
- hyrwyddo ac atgyfnerthu ymgysylltiad gyda chymunedau a dioddefwyr
- monitro gwasanaethau i herio partneriaid ac asiantaethau statudol yn adeiladol

8 **Adran 41 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998.**
**Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/37/section/41**

9 **Safonau ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid – GOV.UK**
**Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services**

**Hysbysu'r cyhoedd, ymarferwyr a llunwyr polisi ynglŷn â gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid.**

Byddwn yn darparu dealltwriaeth a mewnwelediad ynglŷn â gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol drwy gyhoeddi ymchwil, ystadegau, dadansoddiadau a chyngor annibynnol.Byddwn yn gweithredu systemau TG i gefnogi'r broses o gyfnewid gwybodaeth am blant yn y system a gweithrediad y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

**Dylanwadu ar ymarferwyr a llunwyr polisi i ddefnyddio'r dull Plentyn y Gyntaf wrth gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.**

Byddwn yn defnyddio ein mewnwelediad, ein harbenigedd a'n cyngor i ymgysylltu â sefydliadau yn y system cyfiawnder ieuenctid a meysydd eraill polisi cymdeithasol beirniadol, manteisio ar, cymhwyso a buddsoddi yn nhystiolaeth Plentyn yn Gyntaf.



# Ein hamcanion strategol: 2024–2027

## 1. Cefnogi gwelliannau i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid mewn cymunedau lleol

Mae'n rhaid i ni ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer gwelliannau parhaus yn y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol drwy weithio gyda hwy a'r partneriaethau maent yn gweithredu ynddynt. Rydym yn gyfrifol am weinyddu eu cyllid grant craidd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, a sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyllid hwn yn y ffordd gywir, drwy fonitro data a llywio arfer.

Mae 157 o bartneriaethau aml-asiantaeth mewn awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae cyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn y ffordd hon yn adlewyrchu tystiolaeth bod gweithio gyda phlant yn fwyaf effeithiol pan fydd yr ymateb yn seiliedig ar eu hanghenion unigol, pan fydd yn dechrau mor gynnar â phosibl a phan fydd yn uno safbwyntiau a sgiliau o broffesiynau a disgyblaethau gwahanol. Cefnogir y dull gweithredu hwn gan y Prif Swyddog Prawf, sy'n archwilio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol ac yn eu hadroddiad yn 2022 bu iddo ddweud:[10]

> Mae'r model aml-asiantaeth a ymgorfforir ym mhob Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a'u byrddau rheoli wedi parhau i fod yn ffynhonnell gadarn o gryfder drwy gyfnodau anodd. Hefyd, mae ystod a dyfnder y gwasanaethau arbenigol y gall Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid eu darparu i'r plant ar eu llwyth achosion, o therapi iaith a lleferydd lesiant addysgol a chefnogaeth seicolegol yn parhau i greu argraff.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn ceisio gwella perfformiad cyffredinol gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid trwy:

- **Fonitro gwasanaethau a phartneriaethau cyfiawnder ieuenctid yn erbyn disgwyliadau a safonau clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.** Byddwn yn cynorthwyo'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i leihau amrywiadau mewn perfformiad drwy:
  - ddarparu telerau ac amodau ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid;
  - mesur perfformiad y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a'u partneriaeth ehangach drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol;[11]
  - craffu ar gynlluniau cyfiawnder ieuenctid;
  - sicrhau bod y safonau ar gyfer cyfiawnder[12] yn adlewyrchu'r dystiolaeth bresennol a gweithio gydag Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi (HMIP) i alinio hyn gyda fframweithiau arolygu.

10 Gweler: 2022 adroddiad blynyddol o wasanaethau troseddau ieuenctid – Arolygiaeth Prawf EF. Ar gael yn: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/yar-2022

11 Gweler: Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid – GOV.UK Ar gael yn: www.gov.uk/guidance/key-performance-indicators-for-youth-justice-services

12 Gweler: Safonau ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid – GOV.UK Ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services

- **Cynorthwyo'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i wella dulliau cyflenwi.** Mae canlyniadau arolygiadau, dangosyddion perfformiad allweddol a'n barnau gweithredol yn fesur pwysig o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a'r system. Byddwn yn adeiladu ar y gwelliannau cyson i'r gwasanaethau cymunedol a ddarperir yn ystod oes y cynllun strategol.
- **Darparu cyllid sefydlog a thecach i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.** Byddwn yn parhau i weinyddu cyllid grant craidd i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol ac yn cynghori Gweinidogion ar yr opsiynau ar gyfer diwygiadau i'r fformiwla cyllid grant er mwyn galluogi dosbarthiad tecach o gyllid, gan gynnwys ystyried dyfarnu grantiau aml-flwydd.

Yn ogystal, ceisiwn gefnogi perfformiad gwell yn y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn y meysydd gweithgaredd a ganlyn:

- **Darparu dargyfeiriad ledled y wlad.** Mae tystiolaeth yn dangos y gall dargyfeirio plant oddi wrth weithrediadau cyfiawnder troseddol a'r llys ac i mewn i raglenni amgen atal aildroseddu. Byddwn yn cydweithio gyda'r heddlu, Arolygiaeth Prawf EF, Youth Cymru, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac eraill i hyrwyddo'r fframwaith o gefnogaeth a goruchwyliaeth a galluogi mwy o ddulliau i ddargyfeirio plant sy'n gysylltiedig â throseddu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau proses well o gasglu data cenedlaethol ar y dulliau dargyfeirio sydd ar waith.
- **Gweithio gyda phartneriaid i atal a lleihau troseddau difrifol.** Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol[13] yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gydweithredu a chynllunio gyda gwasanaethau lleol eraill i atal a lleihau trais difrifol. Byddwn yn cefnogi gwelliannau i'r ymateb i blant sy'n gysylltiedig â thrais treisgar drwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol; bod y rhai dan sylw yn cael eu diogelu; mae data am ddigwyddiadau yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi; a bod yr hyn a ddysgir o ymchwil i ddigwyddiadau sy'n cynnwys plant yn cael ei ddadansoddi a'i rannu.
- **Gwella cymorth y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i ddioddefwyr troseddau.** Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau cymorth i ddioddefwyr i nodi a rhannu arfer cadarnhaol; monitro cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn darparu ar gyfer dioddefwyr ifanc, gan gynnwys y defnydd o gyfiawnder adferol pan fydd yn ymateb priodol; a hyrwyddo ymgysylltiad gyda chymunedau a throseddwyr lleol i ddatblygu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol.
- **Darparu ar gyfer plant yn ystod yr amser y byddant yn y ddalfa a phan fyddant yn gadael.** Byddwn yn ceisio sicrhau bod adsefydlu adeiladol yn sail i waith i gynllunio camau pontio plant o'r ddalfa ieuenctid, p'un a ydynt ar remand neu wedi'u dedfrydu; a'r opsiynau ar gyfer lleoliadau llety sydd ar gael os ydynt yn dychwelyd i'r gymuned.
- **Cymorth i ddatblygu'r gweithlu.** Mabwysiadu Plant yn Gyntaf yw'r dewis mwyaf effeithiol pan fydd pobl yn deall ei gysylltiad â'u rôl hwy. Byddwn yn cynnig cymorth i sefydliadau sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuenctid i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant newydd ar gyfer eu staff yn adlewyrchu egwyddorion Plentyn yn Gyntaf.

13 Gweler: Dyletswydd Trais Difrifol (hygyrch) – GOV.UK Ar gael yn www.gov.uk/government/publications/serious-violence-duty/serious-violence-duty-accessible#chapter-2-planning-and-collaboration

## 2. Canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r anghyfartaledd hiliol cyson sy'n bodoli ar draws y system cyfiawnder ieuenctid

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ymrwymedig i gydnabod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a bod y plant sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid yn adlewyrchu ystod o anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae gor-gynrychiolaeth o blant mewn gofal, plant sy'n byw mewn tlodi, y rhai â chyflyrau niwrowahanol neu anawsterau lleferydd ac iaith a'r rhai sydd wedi profi trawma. Fodd bynnag, y math mwyaf cyson ac arwyddocaol o or-gynrychiolaeth ywplant o gymunedau hil leiafrifiedig.

Yn ei adroddiad yn 2017, nododd David Lammy[14] nad oedd y llwyddiannau yn esblygiad y system cyfiawnder ieuenctid dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, sydd i'w gweld yn y gostyngiadau yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n troseddu, aildroseddu ac sy'n y ddalfa, yn cael eu profi'n gyfartal gan blant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a dyma oedd un o'i brif bryderon.

Er gwaethaf yr ymrwymiad a'r camau gweithredu cynyddol i fynd i'r afael â hyn yn y blynyddoedd dilynol, mae anghyfartaledd hiliol yn parhau i niweidio bywydau plant a phobl ifanc a'r cymunedau lle maen nhw'n byw. Mae hyn yn annerbyniol ac rydym yn benderfynol o weithredu ar hyn.

Yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn ceisio lleihau anghyfartaledd hiliol yn y system cyfiawnder ieuenctid drwy:

- **Nodi a hysbysu rhanddeiliaid ynghylch anghydraddoldeb hiliol mewn prosesau a chanlyniadau cyfiawnder ieuenctid.** Bydd hyn yn cynnwys nodi a chyhoeddi ystadegau a dadansoddiadau rheolaidd er mwyn gallu nodi anghydraddoldebau, er mwyn i gamau gweithredu wedi'u targedu gael eu cymryd i leihau nifer yr achosion o anghydraddoldeb.
- **Sicrhau canlyniadau cyfartal a mynediad at wasanaethau i bob plentyn, waeth beth yw eu nodweddion gwarchodedig.** Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau ar draws y system cyfiawnder ieuenctid i sicrhau bod pob canlyniad, gan gynnwys atgyfeiriadau at raglenni dargyfeirio ac atal a'r defnydd o remand a'r ddalfa, yn cael eu cymhwyso'n deg a heb ragfarn i blant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- **Galluogi camau gweithredu effeithiol i leihau anghydraddoldeb.** Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau lleol, arbenigwyr a phobl â phrofiadau bywyd perthnasol i nodi camau gweithredu sy'n gweithio i leihau anghyfartaledd. Yn amodol ar gytundeb gweinidogol, byddwn yn gwneud buddsoddiadau wedi'u targedu i ddatblygu dulliau gweithredu effeithiol.
- **Hyrwyddo cynhwysiant a dod yn sefydliad gwrth-hiliol.** Bydd hyn yn cynnwys gweithredu cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan ein grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

14 **Gweler: Adolygiad Lammy GOV.UK**
**Ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report**

## 3. Dylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arfer i ysgogi mabwysiadu Plant yn Gyntaf ar draws y system cyfiawnder ieuenctid

Mae ein sefyllfa annibynnol, unigryw yn ein galluogi i gefnogi a dylanwadu ar newid i wella bywydau plant sy'n gysylltiedig (neu sydd mewn perygl o ddod yn gysylltiedig) â'r system cyfiawnder ieuenctid.

Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio ein dealltwriaeth o dystiolaeth a threiddgarwch a gasglwyd drwy ein goruchwyliaeth o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol i ddarparu cyngor arbenigol i Weinidogion a phartneriaid ar draws y llywodraeth a chynghori, dylanwadu ac ymgysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant.

Drwy hyrwyddo'r dystiolaeth sy'n sail i'r dull gweithredu Plentyn yn Gyntaf, byddwn yn gweithio gydag eraill i'w helpu i gymhwyso arfer effeithiol ar draws y system cyfiawnder ieuenctid, o'r heddlu, i'n llysoedd ac i'r ddalfa a thu hwnt.

I gefnogi'r uchelgais hon byddwn yn:

- **Adolygu'r Safonau ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.** Bydd hyn yn sicrhau bod y safonau sy'n berthnasol i sefydliadau sy'n gweithredu ar draws y system cyfiawnder ieuenctid yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf.
- **Deall a datblygu mesurau canlyniadau cadarnhaol i blant.** Byddwn yn cynnal adolygiad o sut mae anghenion, cynnydd a mesurau llwyddiant plant yn cael eu hasesu, er mwyn datblygu model cyson i sefydliadau sy'n gweithredu ar draws y system cyfiawnder ieuenctid.

Yn ogystal, mae yna rannau o'r system cyfiawnder ieuenctid lle nad yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn arwain y broses o weithredu newid, ond ein rôl fydd rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n gwneud hynny.

Yn ystod oes y cynllun strategol hwn, credwn y bydd buddiannau i blant os bydd asiantaethau ac adrannau arweiniol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Gwella'r profiad o'r llys a chanlyniadau i blant.** P'un a yw plant yn ymddangos fel diffynnydd, tyst neu ddioddefwr, byddant yn cael profiad llawer gwell o'r llys os ydynt yn deall beth sy'n digwydd ac y rhoddir llais iddynt. Byddwn yn cefnogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth ac eraill i ddatblygu llysoedd ieuenctid sydd â dull gweithredu mwy adeiladol a chynhwysol, gyda ffocws ar ddatrys problemau.
- **Creu modelau gwarchodaeth plant sy'n canolbwyntio ar ofal ac sy'n hyrwyddo hunaniaeth gymdeithasol.** Edrychwn ymlaen at agor yr Ysgol Ddiogel newydd yn 2024 fel cam nesaf pwysig yn y broses o symud tuag at lety diogel sy'n canolbwyntio mwy ar ofal i blant, ond mae lefelau trais a hunan-niwed mewn rhannau o'r ystâd ddiogel bresennol i bobl ifanc yn rhy uchel. Byddwn yn parhau i gynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa wrth wneud y newidiadau sydd eu hangen i roi model Plentyn yn Gyntaf ar waith yn y ddalfa ieuenctid.

- **Cydnabod rôl hollbwysig lleoliadau addysg i nodi a chefnogi plant sydd mewn perygl o ddod yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid.** Gall addysg sy'n cyflawni anghenion plant eu cymhwyso gyda'r sgiliau maen nhw eu hangen i ddatblygu hunaniaeth gymdeithasol, cymryd rhan mewn cymdeithas a chael mynediad at gyfleoedd ar gyfer dyfodol positif. Rydym yn cefnogi datblygiad arfer a gwasanaethau addysg sy'n adlewyrchu anghenion plant sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.


# Mesurau llwyddiant

Dros y tair blynedd nesaf rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ein rôl i gefnogi gwelliannau sy'n cynyddu canlyniadau cadarnhaol i blant, sy'n atal troseddu ac sy'n adeiladu cymunedau diogelach. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ddata, tystiolaeth a dyfarniadau annibynnol i'n helpu i ddeall a ydym yn cyflawni ein cenhadaeth:



**Cefnogi gwelliannau drwy'r system cyfiawnder ieuenctid gyfan a darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol.**

1. **Arolygon:** gwella canlyniadau asesiadau annibynnol a gynhelir gan Arolygiaeth Prawf EF.
2. **Dangosyddion Perfformiad Allweddol:** bydd y data yn dangos gwelliannau parhaus ar draws dangosyddion perfformiad allweddol.
3. **Mesurau canlyniad:** bydd gostyngiadau mewn mesurau canlyniadau cyfiawnder ieuenctid gan gynnwys y rhai sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf, cyfraddau carcharu ac aildroseddu.
4. **Anghyfartaledd:** bydd data yn dangos llai o anghymesuredd ac anghydraddoldeb ar draws prosesau a chanlyniadau cyfiawnder ieuenctid.
5. **Cyllid wedi'i dargedu:** bydd archwiliadau annibynnol yn asesu bod cyllid wedi'i dargedu sy'n cefnogi gweithgarwch peilot yn cynnig gwerth am arian.



**Hysbysu'r cyhoedd, ymarferwyr a llunwyr polisi ynglŷn â gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid.**

6. **Goruchwyliaeth:** Mae dadansoddiad Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth o ganlyniadau o asesiadau goruchwylio, argymhellion o ganlyniadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a hunanasesiadau yn dangos bod goruchwyliaeth yn effeithiol.
7. **Data ac ymchwil:** bydd comisiynu arolwg ffurfiol ac adborth gan grŵp ffocws yn sicrhau bod ein data, ein hymchwil a'n deunyddiau goruchwylio yn cyflawni anghenion defnyddwyr.

**Dylanwadu ar ymarferwyr a llunwyr polisi i gymhwyso'r dull gweithredu Plentyn yn Gyntaf er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.**

8. **Gwerth am arian:** mae tystiolaeth barhaus gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn nodi ein bod yn effeithiol o ran rheoli adnoddau a ddyrennir gan yr adran graidd, a'n bod yn parhau i gyflawni'r canlyniadau yr ydym wedi'u nodi yn y strategaeth hon.
9. **Risg:** ein nod yw i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid barhau i gael ei asesu yn yn "risg isel" i waith y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan y Ganolfan Ragoriaeth Cyrff Cyhoeddus.
10. **Ansawdd cyngor:** mae archwiliad annibynnol o'r ddarpariaeth cyngor yn dangos bod hyn yn effeithiol ac mae astudiaethau achos yn dangos sut mae cyngor yn trosi yn effaith ar y system cyfiawnder ieuenctid.

# Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Mwy Effeithiol

Bydd gwireddu ein gweledigaeth a chyflawni'r amcanion yn y strategaeth hon yn gofyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid addasu a newid.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni gyflawni mewn amgylchedd lle y bydd arian cyhoeddus yn brin drwy gydol cyfnod tair blynedd y strategaeth hon. Er mwyn ein galluogi i barhau i gyflawni ein gweledigaeth, byddwn yn ceisio dod yn fwy effeithlon, cynhwysol ac effeithiol, yn ogystal â pharhau i fod yn agored ac atebol.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid effeithlon**

Yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni, mae'n rhaid i bob gwasanaeth cyhoeddus a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sicrhau eu bod yn lleihau costau ac yn darparu gwerth am arian.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid cynhwysol**

Byddwn yn parhau i ymdrechu i fod yn sefydliad cynhwysol, gan wneud yn siŵr bod ein polisïau a'n penderfyniadau yn deg ac yn ddiduedd ac nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar unrhyw un, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid effeithiol**

Os ydym am fod yn effeithiol, bydd angen i ni ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd cyfunol aelodau ein Bwrdd a'n tîm gweithredol i ddarparu arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol, eiriolaeth a swyddogaeth graffu annibynnol o'r system cyfiawnder ieuenctid.

Wrth gyflawni'r strategaeth hon, byddwn yn hyrwyddo rhagoriaeth ac yn ymdrechu i barhau i fod yn sefydliad ac yn gyflogwr rhagorol yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn adolygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen gan ein staff i gyflawni'r amcanion yn y cynllun strategol hwn a chanolbwyntio ein dysgu a'n datblygiad i gefnogi ein pobl i ragori yn y meysydd hyn.

Mae angen i ni sicrhau y gallwn ddenu a chadw'r dalent sydd ei hangen arnom, wrth i ni barhau i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion protocolau recriwtio'r Gwasanaeth Sifil. Byddwn yn adolygu ac yn ymgorffori cyfres newydd o werthoedd craidd i sicrhau ein bod yn disgrifio'r safonau ymddygiad sydd eu hangen gan ein staff i gyflawni'r gorau i'n gilydd a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid agored ac atebol**

Fel sefydliad sy'n ymrwymedig i dystiolaeth ac un sydd â rôl yn goruchwylio, rydym yn croesawu proses graffu allanol o'n gweithrediadau ein hunain a cheisiwn fod mor agored â phosibl.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn atebol i'r Senedd am berfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac am benodi aelodau'r bwrdd.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cyhoeddi dwy ddogfen gynllunio – Cynllun Busnes blynyddol a Chynllun Strategol tair blynedd – yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sy'n nodi ein cyfrifon archwiliedig a manylion cynnydd a chyflawniad yn erbyn amcanion ein Cynllun Busnes.

Mae ein perfformiad parhaus yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy gyfarfodydd sicrwydd busnes chwarterol, a gadeirir gan Bennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Cyrff Cyhoeddus yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac a fynychir gan Brif Weithredwr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar ein perfformiad, risg, a chyllid i roi sicrwydd bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn monitro ein perfformiad drwy bartneriaeth o ddydd i ddydd â'r Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid a phresenoldeb yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Cyllid, Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn darparu arolygiaeth allanol ac mae'r adolygiadau a gynhelir ganddynt yn rhoi sicrwydd i ni fod ein prosesau yn gwneud yr hyn y dylent fod yn ei wneud.



**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid / Youth Justice Board**

Clive House
70 Petty France
Llundain
SW1H 9EX

Welsh Government Buildings
Llys-y-ddraig
Penllergaer Business Park
Penllergaer
Swansea
SA4 9NX

YJB.Enquiries@yjb.gov.uk